# Y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

## (HSS(2)-02-06)

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 1 Chwefror 2006
### Amser y cyfarfod: 9.30am tan 12.50pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| Aelod Cynulliad | Etholaeth |
|---|---|
| Rhodri Glyn Thomas (Cadeirydd) | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| Brian Gibbons (Gweinidog) | Aberafan |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Helen Mary Jones | Y Canolbarth a'r Gorllewin |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |
| Karen Sinclair | De Clwyd |
| Lynne Neagle | Tor-faen |

#### Swyddogion yn Bresennol

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Ann Lloyd | Pennaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Graham Williams | Prif Arolygydd Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGCC) |
| Dr Mike Simmons | Dirprwy Brif Swyddog Meddygol Dros Dro |
| Richard Tebboth | AGCC |
| Jonathan Corbett | AGCC |

| | |
|---|---|
| Pat Vogt | AGCC |
| Richard Timothy | Uned Iaith Gymraeg |
| Hilary Hopkins | Cynghorydd Adnoddau Dynol, Isadran Adnoddau Dynol y GIG |

### Yn Bresennol

### Gwasanaeth y Pwyllgorau

| Enw | Teitl swydd |
|---|---|
| Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |
| Peter Jones | Cwnsler y Pwyllgor |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1.2 Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

### Eitem 2: Adroddiad Prif Arolygydd Gwasanaethau Cymdeithasol

Papur: HSS(2)-02-06(p.1);

2.1 Cyflwynodd Graham Williams, AGCC, ei adroddiad gan roi trosolwg o'r prif bwyntiau. Holodd yr Aelodau Mr Williams a'i dîm ar gynnwys yr adroddiad.

### Camau i'w cymryd

- Richard Tebboth i ddarparu gwybodaeth am bobl ifanc ag anawsterau dysgu y rhoddwyd gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol iddynt.
- Jonathan Corbett i ddarparu gwybodaeth yn nodi p'un a oedd y ffigurau ar y gyfran o ychwanegiadau i'r Gofrestr Amddiffyn Plant a gafodd eu cofrestru cyn hynny yn cwmpasu'r flwyddyn flaenorol neu gyfnod hwy.

## Eitem 3: Adroddiad y Gweinidog

Papur: HSS(2)-02-06(p.2);

3.1 Ymatebodd y Gweinidog i'r cwestiynau gan Aelodau ar ei adroddiad.

## Cam i'w gymryd

- Cytunodd y Gweinidog i ddarparu papur ar y camau a'r amserlen a ddeilliodd o'r gynhadledd ddiweddar ar Recriwtio a Chadw Meddygon Teulu yng Nghymru.

## Eitem 4: Darparu gwasanaethau yn Gymraeg ac ieithoedd eraill i ddiwallu anghenion diwylliannau eraill.

Papur: HSS(2)-02-06(p.3);

4.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur ac ymatebodd i'r cwestiynau gan Aelodau ar weithredu ei gynnwys.

## Camau i'w cymryd

- Y Gweinidog i ddarparu gwybodaeth am strwythur a gwaith yr Uned Iaith Gymraeg o fewn yr Is-adran Iechyd
- Y Dirprwy Weinidog i ddarparu papur ar fentrau i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n siarad Cymraeg i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, yn cynnwys gwybodaeth yn nodi a yw Ysgol Feddygol Caerdydd yn cynnig cwrs i alluogi meddygon sy'n siarad Cymraeg i gynnal eu hymgynghoriadau yn Gymraeg.

## Eitem 5: Is-ddeddfwriaeth

5.1 Craffwyd ar yr is-ddeddfwriaeth yn unol â phrotocol cytûn y Pwyllgor ar gyfer craffu ar is-ddeddfwriaeth, lle y bydd Aelodau'n nodi unrhyw ymholiadau sydd ganddynt neu welliannau yr hoffent eu gwneud ymlaen llaw.

i. Cyfarwyddiadau i Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd, Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe a Bwrdd Iechyd Lleol Sir Fynwy (2006)

Papurau: HSS(2)-02-06(p.4) a HSS(2)-02-06(p.4a);

5.2 Codwyd dau bwynt o eglurhad. Ni chynigiwyd unrhyw welliannau. Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i'r pwyntiau o eglurhad ac roedd yn fodlon ar y cyfarwyddiadau fel y'u drafftiwyd.

ii. Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2006

Papurau: HSS(2)-02-06(p.5) a HSS(2)-02-06(p.5a);

5.3 Codwyd dau bwynt o eglurhad. Ni chynigiwyd unrhyw welliannau. Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i'r pwyntiau o eglurhad ac roedd yn fodlon ar y cyfarwyddiadau fel y'u drafftiwyd.

iii. Cyfarwyddiadau Diwygio i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru i weithredu canllawiau arfarnu technoleg NICE o fewn tri mis i'w cyhoeddi

Papurau: HSS(2)-02-06(p.6) a HSS(2)-02-06(p.6a);

5.4 Codwyd tri phwynt o eglurhad. Ni chynigiwyd unrhyw welliannau. Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i'r pwyntiau o eglurhad ac roedd yn fodlon ar y cyfarwyddiadau fel y'u drafftiwyd.

iv. Rheoliadau Plant (Trefniadau Preifat ar gyfer Maethu)

Papurau: HSS(2)-02-06(p.7) a HSS(2)-02-06(p.7a);

5.5 Codwyd pum pwynt o eglurhad. Ymatebodd y Gweinidog i bedwar o'r rhain yn ystod y cyfarfod. Fodd bynnag, cytunodd Helen Mary Jones i anfon ei hymholiad at y Gweinidog y tu allan i'r cyfarfod. Ni chynigiwyd unrhyw welliannau.

5.6 Nododd y Pwyllgor ymateb y Gweinidog i'r pwyntiau o eglurhad ac roedd yn fodlon ar y cyfarwyddiadau fel y'u drafftiwyd.

## Cam i'w gymryd

- Caiff adroddiad ar gasgliadau'r Pwyllgor ei gyflwyno gerbron y Cynulliad.

## Papurau i’w Nodi

Materion Ewropeaidd - Y Wybodaeth Ddiweddaraf

HSS(2)-02-06(p8)

Adroddiad ar Sefydlu'r Grwp Arbenigol i roi cyngor ar fireinio fformiwla Townsend

HSS(2)-02-06(p9)

### Camau i'w cymryd

- Y Gweinidog i ddarparu tabl gyda dadansoddiad o'r dyraniad i bob Bwrdd Iechyd Lleol, y rheswm dros hyn o un flwyddyn i'r llall gyda gwybodaeth am y gyfradd dwf.
- Gofynnodd yr Aelodau i bapurau'r Grwp Arbenigol gael eu rhoi ar y rhyngrwyd.

Cofnodion y cyfarfod ar 19 Ionawr 2006

HSS(2)-02-06-min
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Ionawr 2006